Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cerrigydrudion

**Ffordd Yr Alwen**
**Cerrigydrudion**
**Corwen**
**Conwy**
**LL21 9SW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Cerrigydrudion

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Cerrigydrudion |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 86 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 75 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 11 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 8.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 8.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 86.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.16% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 19/02/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/04/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/03/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Cerrigydrudion yn gymuned gynhwysol a chefnogol sy'n hyrwyddo ethos gofalgar yn hynod lwyddiannus. Mae perthnasoedd gwaith clòs a thwymgalon yn bodoli rhwng disgyblion a staff sy'n meithrin awyrgylch dysgu brwd ac ymdeimlad buddiol i ddisgyblion fod yn aelodau gwerthfawr o deulu'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn bwrpasol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu diddorol sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn darparu profiadau dysgu ysgogol i ddisgyblion ac yn sicrhau rhediad addas i'r gweithgareddau. Fodd bynnag, nid yw adborth athrawon bob tro'n adnabod camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol. Mae staff yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am eu cynefin, ac am hanes a thraddodiadau Cymru. O ganlyniad mae disgyblion yn ymwybodol o'u milltir sgwâr ac yn dangos balchder a pharch at eu cymuned a'r iaith Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn dda. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da dros amser yn erbyn eu targedau a'u cyflawniadau blaenorol.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn gadarn. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth mewn gofal a'r staff yn llwyddiannus. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella. Maent yn darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her sy'n cefnogi arweinwyr i ddatblygu'r ysgol yn fwriadus.

Mae angen i'r ysgol fynd i'r afael â'r pryderon diogelu yn ymwneud â safle'r ysgol.

## Argymhellion

A1 Ymateb i'r pryderon iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â safle'r ysgol

A2 Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn adnabod camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

A3 Datblygu cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau a gwybodaeth sy'n cyfateb i'r hyn a ddisgwylir am eu hoedran a'u cam datblygu. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau gwrando a siarad yn bwrpasol. Mae bron bob disgybl yn awyddus i sgwrsio'n frwdfrydig â'u hathrawon ac ymwelwyr. Maent yn cyflwyno gwybodaeth am yr hyn maent yn ei ddysgu yn fyrlymus, er enghraifft wrth i'r disgyblion ieuengaf ailadrodd hanes Melangell a Brochwel. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae llawer yn sgwrsio'n ddeallus â'u cyfoedion a staff, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 2 a 3 drafod sut i adeiladu sied bwrpasol ar gyfer cadw defaid. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn siarad yn hyderus am eu gwaith ac yn gwrando'n ofalus ar gwestiynau cyn eu hateb, er enghraifft wrth gyfeirio at ddulliau datrys problem sy'n ymwneud â graddfa cyfnewid arian.

Mae bron bob un o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau darllen yn llwyddiannus, gan ddod i adnabod sain a ffurf llythrennau o oedran ifanc. Maent yn defnyddio dulliau addas i roi cynnig ar ddarllen geiriau anghyfarwydd ac yn dechrau cymhwyso'u medrau darllen mewn cyd-destunau gwahanol. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn dod yn ddarllenwyr medrus ac yn darllen â mynegiant pwrpasol. Wrth i fedrau'r disgyblion ddatblygu, mae llawer yn trafod eu llyfrau gyda pheth hyder gan gyfeirio at ddigwyddiadau blaenorol mewn amrywiaeth o destunau.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn dda. Mae bron bob un yn cychwyn arbrofi wrth wneud marciau, ac mae llawer yn datblygu medrau modur mân sefydlog wrth ddechrau ysgrifennu i bwrpasau gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n gadarn erbyn diwedd Blwyddyn 3. Maent yn ysgrifennu'n gynyddol gywir, gan ddefnyddio atalnodi a berfau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ysgrifennu portread am eu harwyr. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn adnabod nodweddion ffurfiau ysgrifennu gwahanol ac yn eu hefelychu yn eu gwaith eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau'n ddeallus wrth ysgrifennu am hanes Rosa Parks. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu llawysgrifen ddarllenadwy, gyda llawer yn cymryd balchder wrth gyflwyno eu gwaith.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau mathemategol. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn adnabod rhifau ac yn datblygu dealltwriaeth o fesur a dehongli graddfeydd mesur yn dda. Erbyn Blwyddyn 4, mae disgyblion yn defnyddio fformiwla yn llwyddiannus i fesur arwynebedd siapiau cyfansawdd. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn manteisio'n fwriadus ar gyfleoedd i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth lunio caer i raddfa benodol ar fuarth yr ysgol fel rhan o'r gwaith Dyniaethau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod fuddiol o fedrau digidol sy'n cefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn mewnosod llais a seiniau wrth ddefnyddio rhaglenni ac offer animeiddio i greu fideo am garw ar dir yr ysgol. Mae'r disgyblion hynaf yn rhaglennu a chodio cerbyd symudol i ddilyn cyfundrefnau cyfarwyddyd digidol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol ac yn defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau ac arddulliau yn fedrus wrth gynhyrchu gwaith celfyddyd, er enghraifft drwy gynhyrchu gwaith 2d trawiadol ar gyfer cystadlu yn Sioe Cerrig. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol cadarn gan fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd i gadw'n heini yn ystod sesiynau ymarfer corff ac yn ystod amseroedd egwyl.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae lles disgyblion yn gryfder. Mae bron bob un disgybl yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae eu hymddygiad yn ardderchog ac maent yn garedig tuag at ei gilydd, gan gyfarch staff ac ymwelwyr yn gyfeillgar. Maent yn falch iawn o'u hysgol ac yn awyddus i siarad yn frwdfrydig am eu profiadau unigryw o fewn cymuned deuluol, gartrefol a chynhwysol sy'n bodoli ynddi. Mae hyn yn agwedd gyson a nodedig o'r ysgol.

Mae bron bob disgybl yn rheoli eu hemosiynau'n briodol. Maent yn teimlo bod oedolion yn eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n emosiynol trwy'r cyfleoedd i drafod eu teimladau, er enghraifft trwy wiriadau lles dyddiol. Ar draws yr ysgol, mae gan bron bob disgybl berthnasoedd gwaith cadarnhaol â staff ac â'i gilydd. O ganlyniad, maent yn ymgysylltu'n bwrpasol â'u dysgu ac maent yn hyderus i gyfrannu syniadau a gofyn am gymorth. Fodd bynnag, mae tueddiad i ddisgyblion orddibynnu ar gymorth staff sy'n llesteirio datblygiad eu medrau dysgu annibynnol.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth ac yn ystod amseroedd egwyl yn rhagorol. Mae'r disgyblion yn ymateb yn dda i'w gilydd ac yn mwynhau dysgu a chwarae yn hapus. Wrth symud o gwmpas yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ofalus ac yn ystyriol o eraill.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn awyddus i ymgymryd â chyfleoedd dysgu newydd ac yn dangos gwydnwch wrth fynd ati i gyflawni tasgau anghyfarwydd. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r dull i 'beidio rhoi ffidil yn y to' yn effeithiol er mwyn eu cefnogi i ddyfalbarhau a gwneud cynnydd yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus sy'n barod i ddysgu. Yn gyffredinol, mae'r rhan

fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i adborth llafar staff. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn deall nac yn ymateb yn ddigon rhagweithiol i adborth ysgrifenedig athrawon. O ganlyniad, nid ydynt bob tro'n deall beth i’w wneud i wella eu gwaith, a sut, er mwyn gwneud cynnydd yn eu dysgu.

Mae bron bob disgybl yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol ac egwyddorol. Maent yn datblygu’r gallu a’r hyder i drafod eu teimladau ac i ddangos empathi tuag at eraill. Er enghraifft, pan mae’r disgyblion hynaf yn trafod eu hawliau sylfaenol gan ddangos aeddfedrwydd wrth drafod safiad Dafydd Iwan dros yr iaith Gymraeg. O ganlyniad, mae eu hymwybyddiaeth o degwch a chydraddoldeb yn datblygu’n dda.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach a chadw’n heini. Mae llawer yn ymroi’n dda i weithgareddau sy’n datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth i’r disgyblion ieuengaf ddilyn llwybr igam ogam ar fuarth yr ysgol. Mae’r disgyblion hynaf yn ymroi’n gyson mewn clybiau allgyrsiol fel chwaraeon a pherfformio. Maent yn datblygu eu medrau rheoli pêl yn fedrus ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn cystadlaethau a thwrnameintiau lleol a rhanbarthol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth addas o sut i gadw’n ddiogel wrth ddefnyddio’r rhyngrwyd. Er enghraifft, maent yn trafod yn hyderus sut i gadw eu cyfrineiriau’n ddiogel a sut i ymateb petai ddieithryn yn cysylltu â nhw wrth ddysgu ar-lein.

Mae pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, yn cael cynnig ymgymryd â rolau arweinyddiaeth a chyfrifoldebau drwy fod yn aelodau o’r grwpiau disgyblion. Maent yn ymgymryd â’r rolau arwain yn frwdfrydig gan gymryd eu cyfrifoldebau o ddifri ac ymfalchïo yn eu llwyddiant. Er enghraifft, mae’r cyngor ysgol yn falch o’u cyfrifoldebau wrth drefnu digwyddiadau elusennol tra bod aelodau’r cyngor eco yn weithredol wrth leihau’r defnydd o boteli plastig untro yn yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae darpariaeth gwricwlaidd yr ysgol yn eang ac yn adlewyrchu natur ofalgar cymuned yr ysgol. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am eu cynefin, ac am hanes a thraddodiadau Cymru. O ganlyniad mae disgyblion yn ymwybodol o’u milltir sgwâr ac yn dangos balchder a pharch at eu cymuned.

Mae gan athrawon ymagwedd fyfyriol a chydweithredol at gynllunio'r cwricwlwm, gan fireinio eu cynlluniau i ystyried y dulliau sydd fwyaf addas ar gyfer y disgyblion. Ar ddechrau pob tymor, mae staff yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar gyfeiriad y themâu. Trwy hyn, maent yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o hyblygrwydd egwyddorion cynnydd Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o sicrhau cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae gan athrawon a chymorthyddion berthnasoedd gwaith arbennig â disgyblion sy’n creu amgylchedd dysgu pwrpasol a chefnogol. Mae athrawon yn cymell disgyblion i holi cwestiynau am eu dysgu er mwyn eu cefnogi i ddwysáu eu

dealltwriaeth a'u gwybodaeth am wahanol feysydd. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion yn dda ac yn eu hannog i wneud cynnydd cyson yn eu medrau.

Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol gan sicrhau bod bron bob disgybl yn ymgysylltu'n llawn mewn gweithgareddau a phrofiadau dysgu. Mae cyfleoedd i'r disgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Er hyn, mae tueddiad i staff or-arwain y gweithgareddau dysgu sy'n cyfyngu gallu disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Nodwedd amlwg o waith yr ysgol yw'r modd mae athrawon a chymorthyddion yn annog disgyblion i ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a diwylliant a threftadaeth ardal Uwchaled a Chymru. Trwy gynllunio themâu cyfoethog, mae athrawon yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gadarn y disgyblion o'u cymdogaeth drwy gynnig profiadau byw ac ystyrlon. Maent yn ennyn a chynnal diddordebau'r disgyblion yn fedrus wrth gynllunio amrywiaeth o weithgareddau diddorol a phrofiadau gwerthfawr sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol a'i lle yn y gymuned leol. Er enghraifft, wrth i ddiddanwr enwog gydweithio â'r disgyblion i berfformio'n frwdfrydig fel rhan o ddathliadau pen-blwydd arbennig yr ysgol. O ganlyniad, mae medrau llafar Cymraeg a dealltwriaeth bron bob disgybl o dreftadaeth a diwylliant Cymru yn datblygu'n hynod effeithiol. Mae hyn yn nodwedd gref o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae athrawon yn rhannu amcanion clir ar ddechrau gweithgareddau dysgu a gwneir defnydd cyson o feini prawf llwyddiant fel cyfrwng i gefnogi disgyblion yn eu dysgu. O ganlyniad, mae gan y disgyblion hyder wrth hunanwerthuso eu hymdrechion a'u cyflawniadau eu hunain a'u cyfoedion. Mae'r staff yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion yn ystod gweithgareddau er mwyn cynnal ac ymestyn eu dysgu. Mae athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig syml sy'n canolbwyntio ar ganmol ymdrechion y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r adborth yn adnabod camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol, nac yn cynnig canllawiau iddynt i wella. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn hyderus eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n dda yn eu gwaith a'r hyn sydd angen ei wella yn ddigon effeithiol.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol gan wneud defnydd pwrpasol o asesiadau amrywiol, sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ymhob agwedd o'u dysgu. Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth am gynnydd disgyblion i rieni yn amserol ac yn cynnwys targedau gwelliant lle bo'n berthnasol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r berthynas waith agos rhwng y staff a'r disgyblion, ac ymhlith y disgyblion eu hunain, yn sylfaen gadarn ar gyfer creu cymuned ofalgar sydd ag ethos teuluol, cyfeillgar a chynnes. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn adnabod anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Mae agweddau cadarnhaol y staff yn cefnogi'r disgyblion i ymgartrefu'n gyflym a chyfrannu'n dda at fywyd yr ysgol. Mae hyn yn atgyfnerthu eu bodlonrwydd a'u lles, ac yn annog disgyblion i feithrin agweddau gwydn tuag at eu dysgu.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn sy’n cael effaith gadarnhaol ar gefnogi disgyblion ag ADY. Mae’r Cydgysylltydd ADY (CADY) sy’n newydd i’w rôl, a’r staff, yn frwdfrydig dros eu cyfrifoldebau a datblygiad y disgyblion. Mae staff yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion ar eu taith drwy’r ysgol ac yn dadansoddi’r wybodaeth yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn amserol ac yn darparu ystod o raglenni cefnogi sy’n targedu eu hanghenion penodol yn llwyddiannus. Mae'r CADY yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth a'r cymorthyddion ac asiantaethau allanol, fel y tîm therapi iaith, i ddarparu ymyraethau effeithiol i ddysgwyr. Mae'r ysgol yn paratoi'n dda ar gyfer cynllunio a gweithredu bwriadus fel rhan o’r broses ddiwygio darpariaeth ADY.

Un o gryfderau’r ysgol yw’r modd mae staff yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth y disgyblion o’u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant. Mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i ddathlu eu Cymreictod ac i deimlo eu bod yn perthyn i’r gymuned leol. Achubir ar gyfleoedd cyson i rannu a dathlu’r elfennau hyn drwy ystod o weithgareddau ysgogol. Er enghraifft, mae’r disgyblion hynaf yn ymweld â Fferm y Rhug er mwyn gweld anifeiliaid fferm gwahanol, a dysgu sut mae cig yn cael ei gynhyrchu gyda phwyslais ar gysyniad o’r ‘pridd i’r plât’.

Mae agweddau ysbrydol a moesol disgyblion yn cael eu hyrwyddo’n rheolaidd drwy wasanaethau addoli ar y cyd. Maent yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar faterion cyfoes a gwahanol grefyddau a diwylliannau mewn gweithgareddau dosbarth yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu yn eu hymwybyddiaeth o ba mor amrywiol yw cymdeithas heddiw, er enghraifft wrth bwysleisio ‘Mae’n iawn bod yn wahanol’.

Mae’r ysgol yn datblygu cyfleoedd addas i ddisgyblion gymryd rhan mewn penderfyniadau ar lefel ysgol drwy aelodaeth y cynghorau ysgol ac o fewn gweithgareddau yn y dosbarth. Er enghraifft, mae pob disgybl yn cael cyfle i fynegi barn ar ba themâu maent am eu hastudio. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i fynegi barn am sut i wella gwahanol agweddau o’r ysgol a'r gymuned leol. Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau, er enghraifft drwy gystadlu mewn cystadlaethau chwaraeon ac eisteddfodau lleol. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i fagu hunanhyder a datblygu creadigrwydd yn effeithiol.

Mae staff yn hybu pwysigrwydd bwyta’n iach ac annog ffitrwydd corfforol drwy amrediad o weithgareddau addysg gorfforol. Mae'r staff yn gwneud defnydd cyson o’r meysydd chwarae cymunedol i drefnu a darparu ystod o weithgareddau sy’n cyfrannu'n dda at les a mwynhad disgyblion yn eu dysgu. Mae’r ardaloedd chwarae awyr agored ar yr buarth yn ddeniadol ac yn hybu’r disgyblion i ymgymryd â gweithgarwch corfforol yn ystod gweithgareddau dysgu ac amseroedd egwyl yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch yn effeithiol ac nid yw’r trefniadau’n peri pryder. Fodd bynnag, daeth arolygwyr â materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch y safle i sylw arweinwyr yr ysgol yn ystod yr arolygiad. Mae trefn i adrodd pryderon diogelu am ddisgyblion yn gadarn ac mae'r staff yn cydweithio ag

asiantaethau allanol, pan fo hynny'n briodol. Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Ers ei phenodiad diweddar, mae'r pennaeth mewn gofal wedi adeiladu ar strategaethau arwain yr ysgol yn llwyddiannus. Mae gweledigaeth yr ysgol wedi'i seilio  ar werthoedd clir a chadarn sy'n adlewyrchu'r dyhead fod pob unigolyn yn llwyddo o fewn ei chymuned ofalgar. Mae'r holl staff yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, ac o ganlyniad, mae'r ymdeimlad cartrefol a chynhaliol yn treiddio ar draws cymuned glòs yr ysgol.

Mae gan y pennaeth mewn gofal ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion a'r staff. Mae hyn yn creu awyrgylch ble mae pawb yn anelu am y gorau. Mae arweinwyr yn dyrannu cyfrifoldebau'n strategol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ailstrwythuro rôl y CADY yn dilyn newidiadau mewn staffio. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer rheoli perfformiad yn addas. Mae gan bob aelod o staff addysgu dargedau unigol sy'n cysylltu'n bwrpasol â'r blaenoriaethau gwella, ac yn diwallu eu hanghenion dysgu proffesiynol. O ganlyniad, mae gan bron bob aelod o staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau a sut maent yn cyfrannu at ddatblygiad yr ysgol.

Mae perthynas yr ysgol â'r rhieni yn effeithiol ac mae'r cydweithio a'r cyfathrebu parhaus yn hybu'r ysgol yn ei chymuned yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a'i chymuned yn dda. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni gefnogi lles y disgyblion, er enghraifft drwy gynnal noson i godi ymwybyddiaeth ar sut i gadw'n ddiogel ar y we. Mae cymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol yn hynod weithgar wrth gynnal digwyddiadau sy'n cefnogi'r ysgol i ddathlu hunaniaeth yr ardal. O ganlyniad i gynnal cyngerdd dydd Gŵyl Ddewi er enghraifft, gwnaed cyfanswm da o elw i gyfrannu at gostau arwyddion sy'n hybu disgyblion i chwarae gemau buarth traddodiadol Cymreig.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau cadarn i fonitro a gwerthuso'r dysgu a'r ddarpariaeth. Maent yn defnyddio nifer o ffynonellau tystiolaeth yn effeithiol i gaffael darlun clir o berfformiad yr ysgol. Mae arweinwyr yn paratoi adroddiadau monitro addas sy'n adnabod cryfderau ac agweddau ar gyfer gwelliant yn gywir. Maent yn defnyddio'r wybodaeth o'r prosesau hunanwerthuso yn llwyddiannus i osod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn rheolaidd, gan ymateb i gerrig milltir penodol a gwerthuso effaith gwariant yn glir.

Mae'r llywodraethwyr yn hynod gefnogol i waith yr ysgol, ac maent yn adnabod yr ysgol a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn llwyddiannus. Mae adroddiadau'r arweinwyr yn sicrhau bod llywodraethwyr yn cael gwybodaeth briodol am berfformiad yr ysgol. Mae llywodraethwyr hefyd yn casglu eu gwybodaeth eu hunain ac yn cyfrannu'n briodol at y prosesau hunanwerthuso, yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu, yn gwrando ar ddysgwyr, a chraffu ar waith disgyblion. Maent yn gefnogol iawn i'r pennaeth mewn gofal ac yn gweithio gyda hi a'r staff yn bwrpasol. Mae llywodraethwyr yn wybodus am flaenoriaethau cenedlaethol, fel Cwricwlwm i Gymru, diogelu ac effaith tlodi ar fywydau disgyblion a'u teuluoedd o fewn eu cymuned eu

hunain. Maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn effeithiol, er enghraifft wrth sicrhau trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau a chyllid yn ddoeth ac yn adolygu gwariant yn effeithiol. Maent yn cysylltu'r gwariant â blaenoriaethau gwella'r ysgol yn llwyddiannus ac yn gwneud defnydd bwriadus o grantiau i gyfoethogi'r ddarpariaeth i'r disgyblion. Er enghraifft, defnyddir y grant datblygu disgyblion i gyflogi cymorthyddion sy'n canolbwyntio ar wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol. O ganlyniad, yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/05/2024